



CANOLFANNAU CYMRAEG GODRE'R ANDES
CENTROS GALESSES DE LA CORDILLERA



Ysgol Gymraeg Trevelin - Escuela de Galés de Trevelin

21 Ebrill 2008

Clive James
Ysgrifennydd Gweithredol ac Aelodaeth,
Clwb Mynydda Cymru,
Hafan,
Caeathro,
Caernarfon,
LL55 2SS

Ynglyn â: Rhodd o \$60 USD

Annwyl Clive

Ar ran Pwyllgor Ysgol Gymraeg Trevelin, dymunaf ddiolch i Clwb Mynydda Cymru am y rhodd garedig o \$60USD a chyrrhaeddodd yma drwy ddwyllaw John a Glori Roberts, Waunfawr. Mae eich ymrwymiad i helpu datblygu'r iaith Gymraeg yn ein cymuned yn cael ei werthfawrogi.

Eleni, byddwch yn falch o glywed bod Pwyllgor wedi ei sefydlu yn Ysgol Gymraeg Trevelin am y tro cyntaf a bod niferoedd sylweddol o fyfyrwyr wedi cofrestru i ddysgu Gymraeg ar bob lefel - dros 90 o fyfyrwyr i gyd.

Datblygiad diddorol iawn bydd presenoldeb swyddog Menter Iaith (Menter Patagonia) yn ein mysg am cyfnod o 10 mis er mwyn datblygu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, ac adlewyrchu y prosiectau eisoes yn cael eu darparu drwy Gymru gan y mudiad yma. Yr ydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at ddyfodiad swyddog Menter i'n cymuned ac mae gennym restr eang o brosiectau i drafod a datblygu.

Pwrpas Pwyllgor Ysgol Gymraeg Trevelin yw hybu datblygiad parhaol yr iaith yn y gymuned. Gyda chymorth rhoddion gan cefnogwyr fel Clwb Mynydda Cymru gobeithiwn bydd yr iaith yn goroesi yn yr Andes a bydd yn datblygu yn iaith glywadwy a gweladwy yn ein cymuned yn bell i'r dyfodol.

Diolch eto am eich cefnogaeth hael tuag at ein gwaith.

Yr gywir

Gwyn Jones
Ysgrifennydd
Pwyllgor Ysgol Gymraeg Trevelin